Cyllid & Thollau EF

# Nwyddau i'r tŷ a nwyddau personol a gyfrannwyd at elusen
## Atodlen IHT408

Enw'r ymadawedig

Dyddiad y farwolaeth DD MM BBBB

Cyfeirnod Treth Etifeddiant (os yw'n hysbys)

### Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon os yw'r bobl sydd wedi etifeddu nwyddau'r tŷ a nwyddau personol yr ymadawedig:

- yn dymuno rhoi rhai o'r nwyddau, neu'r nwyddau i gyd, i elusen gymwys
- yn dymuno didynnu eithriad elusen yn erbyn gwerth yr ystâd

Os byddwch yn llenwi'r ffurflen hon ni fydd angen i chi gyflwyno Offeryn Amrywio (IOV) ffurfiol er mwyn didynnu rhyddhad elusen ar gyfer unrhyw nwyddau'r tŷ neu nwyddau personol a roddwyd i elusen gan y buddiolwyr.

Ni ddylech lenwi'r ffurflen hon er mwyn didynnu eithriad elusen ar gyfer unrhyw nwyddau'r tŷ a nwyddau personol sy'n cael eu trosglwyddo o dan ewyllys yr ymadawedig.

### Gofynion ychwanegol

Os bu farw'r ymadawedig ar neu ar ôl 6 Ebrill 2012, mae'n rhaid i chi anfon tystiolaeth gyda'r ffurflen hon fod yr elusen wedi cael y nwyddau a drosglwyddir iddi.

Mae'n rhaid i'r holl bobl sydd wedi etifeddu nwyddau'r tŷ a'r nwyddau personol lofnodi'r ffurflen hon.

### Elusennau cymwys

O 1 Ebrill 2023 ymlaen, mae elusen gymwys yn un sy'n bodloni'r amodau canlynol:

- mae'n cael ei sefydlu at ddibenion elusennol
- mae'n elusen gofrestredig yn y DU o 1 Ebrill ymlaen at ddibenion Treth Etifeddiant
- mae ganddi reolwyr sy'n bobl weddus a phriodol i fod yn rheolwyr yr elusen

### Os oes angen help arnoch

Darllenwch yr IHT400, 'Nodiadau', cyn llenwi'r ffurflen hon.

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth, neu i gael copi arall o'r ffurflen hon:

- ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 - os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, deialwch +44 300 200 1900

### Eich hawliau a'ch ymrwymiadau

Mae Siarter CThEF yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

### Datganiad

Y mae gennyf i/gennym ni, sydd wedi llofnodi isod, yr hawl i nwyddau'r tŷ a nwyddau personol yr ymadawedig a enwyd uchod o dan ewyllys/drwy ddiewyllysedd. Amrywir ewyllys/diewyllysedd yr ymadawedig, fel bod y canlynol yn gymwys:

- mae holl nwyddau'r tŷ a nwyddau personol yn mynd i'r elusen neu'r elusennau a ddangosir isod ☐
- dim ond nwyddau'r tŷ a'r nwyddau personol hynny a ddangosir yn yr atodlen dros y ddalen sy'n mynd i'r elusen neu'r elusennau a ddangosir isod ☐

| Enw llawn yr elusen neu'r elusennau, y wlad lle y'i/y'u sefydlir a chyfeirnod Cyllid a Thollau EF yr elusen, os yw hynny ar gael. |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

Fy mwriad/Ein bwriad yw bod darpariaethau adran 142(1) Deddf Treth Etifeddiant 1984 ac adran 62(6) Deddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992 yn cael eu defnyddio wrth drin yr amrywiad hwn.

**Person cyntaf**

Enw llawn

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

**Ail berson**

Enw llawn

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

**Trydydd person**

Enw llawn

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

**Pedwerydd person**

Enw llawn

Llofnod

Dyddiad DD MM BBBB

## Atodlen o eitemau

Disgrifiwch unrhyw eitemau penodol a roddwyd i elusen. Er enghraifft, bwrdd bwyd a 4 cadair. Fel arall, mae'n bosibl i chi gynnwys disgrifiad mwy cyffredinol, er enghraifft dillad, offer cegin, bocsys o addurniadau.

| Disgrifiad o'r eitemau | Enw'r elusen | Gwerth yr eitemau £ |
|---|---|---|
| | | |
| | | £ 0 |

Dylech gynnwys y swm hwn ar ffurflen IHT400, ym mlwch 92